bus users
bringing people together
dod â phobl ynghyd

Maniffesto ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru

Dros y degawd diwethaf, mae gwasanaethau bysiau wedi ymgodymu â gostyngiad mewn niferoedd teithwyr, prinder gyrwyr, tagfeydd cynyddol a thoriadau cyllid.

Er mwyn gwireddu potensial gwasanaethau bysiau fel grym er lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, mae ein Maniffesto Bysiau 2024 yn galw am gymorth hirdymor, sy'n cael ei ariannu'n llawn, ar gyfer y gwasanaethau rhaff achub hyn.

WEr bod gwasanaethau bysiau yn fater Datganoledig yng Nghymru, bydd ASau Cymreig yn cael lleisio'u barn ar y ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio yn San Steffan. Mae angen i'r Llywodraeth etholedig nesaf yn San Steffan roi cymunedau wrth galon cynllunio trafnidiaeth a blaenoriaethu teithio cyhoeddus, a rennir, llesol, dros ddefnyddio ceir preifat.

Ein Maniffesto

1 Gwyrdd
Dim ond 2% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir gan drafnidiaeth sy'n dod o fysiau a choetsis, o gymharu â 52% o geir. Mae angen polisi trafnidiaeth sy'n blaenoriaethu teithio cyhoeddus, a rennir, llesol, yn hytrach na hyrwyddo cerbydau trydan preifat sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb trafnidiaeth a thagfeydd.

2 Hyfyw
I hyrwyddo newid mewn dulliau teithio, mae'n rhaid i wasanaethau bysiau fod yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn ddeniadol: mwyaf oll mae gwasanaethau'n cael eu defnyddio, mwyaf deniadol y maent yn ymddangos. Mae'r cylch rhinweddol hwn yn gofyn am ymrwymiad i, a buddsoddiad mewn seilwaith a mesurau blaenoriaethu bysiau i sicrhau bod bysiau yn ddewis amgen hyfyw o gymharu â cheir.

3 Addas i'r diben
Mae ein cymdeithas yn newid yn barhaus ac mae digwyddiadau fel y pandemig wedi trawsnewid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio. I gadw'n wastad â'r newid hwn, mae'n rhaid i ddarparwyr trafnidiaeth fod yn ymwybodol o dirwedd gymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu, ac yn ymatebol i anghenion y bobl sy'n byw ynddynt, nawr ac yn y dyfodol.

4 Cysylltiedig
Dylai trafnidiaeth fod yn elfen greiddiol ym mhob penderfyniad cynllunio pwysig – o addysg a chyflogaeth i dai a'r amgylchedd. Yn San Steffan, mae angen ymagwedd drawsadrannol sy'n ymgyfuno â gwaith Llysgenhadon Anabledd a Mynediad y DU, er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol trafnidiaeth ym mhob agwedd o'n bywydau.

5 Hygyrch
Mae pawb yn haeddu cael mynediad at gyfleoedd bywyd, yn cynnwys y nifer cynyddol o bobl hŷn, anabl neu sydd â chyflwr iechyd meddwl neu gorfforol. Dylai pobl â'r profiadau byw hyn gael eu cynnwys yn fwy gweithredol yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau er mwyn amlygu rhwystrau i deithio a sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ei hôl hi.

www.bususers.org

6 Cynhwysol
Dylai ymgynghoriadau gwasanaethau bysiau fod yn gwbl gynhwysol i adlewyrchu amrywiaeth y bobl maent yn cynrychioli. Golyga hyn ymroi i gydymweithio â chanolfannau addysg, elusennau, cartrefi gofal, mannau addoli, cyflogwyr lleol a chanolfannau meddygol, ynghyd â darparwyr trafnidiaeth presennol, i sicrhau bod trafnidiaeth leol yn bodloni anghenion y gymuned leol.

7 Tryloyw
Dylai teithwyr gael gwybodaeth well am eu hawliau a'r dulliau gwneud iawn. Mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau bod eu proses gwyno'n glir ac yn hygyrch, gyda gwybodaeth gysylltu sy'n hawdd cael ati, yn cynnwys llinellau tir heb bremiwm, a Chorff Datrys Anghydfodau Amgen y gellir uwchgyfeirio cwynion ato.

8 Teg
Byddai system brisiau symlach ar draws yr holl ddulliau teithio yn golygu bod teithio cynaliadwy yn fwy fforddiadwy, yn fwy hygyrch ac yn fwy deniadol. Er bod gan dechnoleg ddigidol rôl allweddol i'w chwarae, ni ddylai hyn fod yn rhwystr i'r miliynau o bobl sydd naill ai wedi'u hallgáu'n ddigidol neu heb fynediad at gyfrif banc.

9 Digyfyngiad
Mae pasys bws consesiynol wedi dod yn erfyn cysylltedd hanfodol i bobl hŷn a phobl ag anableddau. Bydd diddymu'r cyfyngiadau fel bod pasys bws consesiynol yn ddilys ar gyfer teithio ledled y DU, ni waeth ble mae deiliad y pàs yn byw, yn agor cyfleoedd ar gyfer addysg, gwaith a gwirfoddoli, ac yn gwella mynediad at ofal iechyd, hamdden, teulu a ffrindiau.

10 Angenrheidiol
I filiynau o bobl, mae gwasanaethau bysiau yn rhaff achub sy'n darparu mynediad at addysg, cyflogaeth a gofal iechyd ac yn sicrhau eu bod yn gallu byw bywydau bywiog a boddhaus. Mae angen diweddaru Adran 63 Deddf Trafnidiaeth 1985 a Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i adlewyrchu'r 'dyletswydd' sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol hyn, ynghyd â chyllid digonol, wedi'i glustnodi.

Ynglŷn â Bus Users

Mae Bus Users UK yn elusen gofrestredig sy'n ymgyrchu dros drafnidiaeth gynhwysol, hygyrch. Y ni yw'r unig Gorff Datrys Anghydfodau Amgen cymeradwy ar gyfer y diwydiant bysiau a choetsis, a'r corff dynodedig ar gyfer trin cwynion dan y Ddeddfwriaeth Hawliau Teithwyr ar Fysiau a Choetsis. Rydym hefyd yn rhan o'r Gynghrair Trafnidiaeth Gynaliadwy, grŵp sy'n gweithio i hybu buddion teithio cyhoeddus, a rennir, llesol.

Ar y cyd â'n gwaith gyda chwynion, rydym yn monitro ac yn ymchwilio i wasanaethau ac yn gweithio gyda gweithredwyr a darparwyr cludiant i wella'r gwasanaethau i bawb. Rydym yn trefnu digwyddiadau, cynnal ymchwil, ymateb i ymgynghoriadau, siarad â phwyllgorau dethol a chymryd rhan yn nigwyddiadau'r diwydiant i sicrhau bod llais y teithiwr yn cael ei glywed.

Mae Bus Users UK yn elusen gofrestredig (1178677 ac SC049144), ac yn Gwmni Cyfyngedig Drwy Warant (04635458).

Bus Users UK, 22 Greencoat Place, Llundain SW1P 1PR
0300 111 0001 **enquiries@bususers.org** **www.bususers.org**